GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu er mwyn Llywio Ymateb ac Adferiad Iechyd Cyhoeddus COVID-19 Cymru

## Calendr Cryno DIWEDDARIAD
## Ebrill 2020 – Mawrth 2021

DECHRAU YMA

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

## Gwybodaeth Gefndir

**Mae natur ac ansicrwydd y pandemig COVID-19 a esblygodd yn gyflym wedi arwain at heriau digynsail i systemau iechyd, yn ogystal ag effeithiau hirdymor cymdeithasol, economaidd ac o ran lles ar gymdeithasau. Er mwyn deall, lliniaru ac ymdrin â’r rhain, mae gweithredu iechyd cyhoeddus cydgysylltiedig, cydweithredol, amserol a seiliedig ar dystiolaeth wedi bod yn hanfodol ar draws yr holl lefelau llywodraethu, sectorau a rhanddeiliaid, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae dysgu parhaus ac amserol o brofiadau gwledydd eraill a’r dystiolaeth ac arweiniad datblygol a ddarperir gan sefydliadau rhyngwladol allweddol, yn hanfodol i gyfeirio’r fath gamau gweithredu, ymagweddau a phrosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru.**

## Sganio’r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu

Dechreuwyd ffrwd waith Sganio’r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu gan Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gyfeirio’r cynlluniau ymateb iechyd y cyhoedd COVID-19 ac ymadfer yn ei sgil yng Nghymru. Mae’n canolbwyntio’n bennaf ar dystiolaeth, profiad, mesurau rhyngwladol COVID-19 yn ogystal ag ymagweddau pontio ac ymadfer, ac yn ymchwilio i atebion a mesurau i liniaru’r effeithiau iechyd, lles, cymdeithasol ac economaidd datblygol (niwed a manteision posib). Mae’r ffrwd waith yn cyfrannu at Gymru iachach, fwy cyfartal, gwydn, ffyniannus a chyfrifol yn fyd-eang. Mae’r adroddiadau’n canolbwyntio’n bennaf ar dystiolaeth, profiad, mesurau rhyngwladol COVID-19 yn ogystal ag ymagweddau pontio ac ymadfer, er mwyn deall ac ymchwilio i atebion ar gyfer ymdrin â’r effeithiau iechyd, lles, cymdeithasol ac economaidd parhaus a datblygol (niwed a manteision posib).

Mae tystiolaeth ryngwladol berthnasol yn cael ei thynnu allan, ei syntheseiddio a’i llunio fel adroddiadau amserol lefel uchel. Mae’r adroddiadau’n cynnwys amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys llenyddiaeth wyddonol, cyfathrebiadau llywodraethau ac adroddiadau a dadansoddiadau sefydliadau anllywodraethol. Mae’r ymagwedd fethodolegol yn ymwneud â phroses tri cham sy’n cynnwys adolygiad cwmpasu, syntheseiddio tystiolaeth a golygu terfynol. Nod yr ymagwedd systematig hon yw darparu gwybodaeth ddeinamig, gyfoes, ymarferol, a chyfleu canfyddiadau allweddol, gan ganiatáu i’r adroddiad fod yn gryno ac yn hawdd ei ddeall.

Mae’r holl adroddiadau Sganio’r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu o fis Ebrill 2020 hyd yn hyn i’w gweld yma.

## Adroddiadau Sganio’r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu - Methodoleg

Mae adroddiadau Sganio’r Gorwel Rhyngwladol wedi’u cyhoeddi’n rheolaidd ers mis Ebrill 2020, gan syntheseiddio data, tystiolaeth a dysgu empirig o sefydliadau allweddol, ymchwil a gwledydd perthnasol. Er mwyn dod i dealltwriaeth a throsolwg o’r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â COVID-19, mae’r adroddiadau’n cynnwys amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys llenyddiaeth wyddonol, cyfathrebiadau llywodraethau ac adroddiadau a dadansoddiadau sefydliadau anllywodraethol. Mae’r ymagwedd fethodolegol yn ymwneud â phroses tri cham sy’n cynnwys adolygiad cwmpasu, syntheseiddio tystiolaeth a golygu terfynol. Nod yr ymagwedd systematig hon yw darparu gwybodaeth ddeinamig, gyfoes, ymarferol, a chyfleu canfyddiadau allweddol, gan ganiatáu i’r adroddiad fod yn gryno ac yn hawdd ei ddeall.

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu: Calendr Cryno

Mae'r Calendr Cryno Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu hwn yn ddiweddariad o'r Calendr Cryno blaenorol sydd i'w weld yma a fu'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Mae'r Calendr Cryno hwn wedi coladu, syntheseiddio a chyflwyno crynodeb clir a chryno o Adroddiadau Sganio'r Gorwel Rhyngwladol COVID-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, ers mis Ebrill 2021 hyd at fis Mawrth 2022. Mae ffrwd waith Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu wedi'i brofi i arddangos ymchwil llawn gwybodaeth ac effaith wrth gywain data o wledydd eraill ac wedi darparu arweiniad, argymhellion a mewnwelediadau defnyddiol ynghylch natur ac ansicrwydd y pandemig COVID-19 esblygol, gan geisio gwella a chyfeirio'r fath gamau gweithredu ac ymagweddau yng Nghymru. Nod y crynodeb yw cyfeirio trosolwg cryno o gamau polisi cynhwysfawr, cydlynol, cynhwysol seiliedig ar dystiolaeth, sydd wedi cefnogi ac yn parhau i gefnogi'r strategaethau cenedlaethol tuag at Gymru iachach, fwy cyfartal, gwydn, ffyniannus a chyfrifol yn fyd-eang. Mae'r calendr hwn yn cynnwys negeseuon allweddol ac argymhellion allweddol o dudalen synthesis lefel uchel pob adroddiad Sganio'r Gorwel Rhyngwladol.

## Sut i ddefnyddio'r calendr sganio'r gorwel rhyngweithiol hwn

**Cliciwch yma**

Y ffordd orau i weld y ddogfen hon yw ar gyfrifiadur pen desg neu liniadur gan ddefnyddio Adobe Acrobat Reader (ar gael yma i'w lawrlwytho am ddim).

***Ymwadiad***

***Nid yw'r adroddiadau'n darparu dadansoddiad data/tystiolaeth manwl na chynhwysfawr. Oherwydd newydd-deb y feirws COVID-19 a'r sefyllfa epidemiolegol ddeinamig, gall astudiaethau, data a thystiolaeth wrthdaro, fod yn amhendant neu heneiddio'n gyflym iawn gan ddibynnu ar y wlad a ffactorau eraill.***

# Cynnwys

**Adroddiad 27**
22 Ebrill 2021

**Adroddiad 28**
13 Mai 2021

**Adroddiad 29**
10 Mehefin 2021

**Adroddiad 30**
1 Gorffennaf 2021

**Adroddiad 31**
22 Gorffennaf 2021

**Adroddiad 32**
12 Awst 2021

**Adroddiad 33**
10 Medi 2021

**Adroddiad 34**
15 Hydref 2021

**Adroddiad 35**
25 Tachwedd 2021

**Adroddiad 36**
17 Rhagfyr 2021

**Adroddiad 37**
27 Ionawr 2022

**Adroddiad 38**
10 Mawrth 2022

Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 22 Ebrill 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Cyflwyno'r brechiad COVID-19 yn fyd-eang:

- Amrywia cyfraddau brechu yn sylweddol ledled y byd, gyda gwledydd tlotach yn adrodd am gyfraddau is nag a welir mewn gwledydd incwm uchel - gellir priodoli cyfraddau is, yn rhannol, i oedi o ran cyflenwadau, petruso ynghylch y brechlyn a negeseuon cymysg
- Mae cenedlaetholdeb brechlynnau wedi dod i'r amlwg gyda'r gwledydd cyfoethocaf yn gwthio i gael y mynediad cyntaf i gyflenwad ac o bosib yn pentyrru elfennau allweddol ar gyfer eu cynhyrchu
  - Rhagfynegir y bydd cost economaidd hyn yn uchel, gan gostio o bosib $1.2 triliwn y flwyddyn o economi'r byd a $119 biliwn y flwyddyn i wledydd incwm uchel
- Mae mynediad teg at frechu yn hanfodol ac yn cael ei alluogi drwy gynlluniau fel y gronfa COVAX, sydd â'r nod o gyflymu datblygu a chynhyrchu brechlynnau i warantu mynediad teg a chyfiawn ar draws pob gwlad
- Po uchaf yw cyfran y boblogaeth sy'n cael ei brechu, y lleiaf fydd y cyfleoedd i COVID-19 ledaenu a mwtanu
- Mae pryderon yn dod i'r amlwg ynghylch effeithiolrwydd brechlynnau yn erbyn amrywiolion newydd sy'n peri pryder (VOC), ond mae cynlluniau ar y gweill i wneud addasiadau i frechlynnau presennol er mwyn taclo VOC
- Mae treialon brechu ymhlith plant yn ehangu ac mae'r oedran brechu yn gostwng

### Mesurau teithio rhyngwladol:

- Dylai penderfyniadau i weithredu mesurau teithio, addasiadau a therfynu mesurau lliniaru risg fod yn seiliedig ar asesiadau risg trylwyr sy'n cael eu cynnal yn systematig ac yn rheolaidd
- Mae'r dystiolaeth bresennol yn cefnogi ymagwedd gyfunol at brofi teithwyr a'u rhoi mewn cwarantîn. Prawf cyn gadael (neu brawf yn uniongyrchol wrth gyrraedd) ynghyd â chwarantîn a phrawf pellach pump i saith diwrnod ar ôl cyrraedd i gadarnhau'r posibilrwydd o ryddhau o gwarantîn os yw'r prawf yn negyddol
- Mae gwledydd ledled y byd yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno pasbortau neu dystysgrifau brechiad COVID-19, gyda'r nod o gadarnhau statws brechu a dangos amddiffyniad / diffyg heintusrwydd er mwyn i unigolion deithio neu fynychu ymgynulliadau mawrion
  - Fodd bynnag, mae pryderon wedi'u codi o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth ynghylch effeithiolrwydd brechu ar gyfraddau trosglwyddo a'r risg bosib y gallai pasbortau brechu gynyddu anghydraddoldeb o ran mynediad a chyfle


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 13 Mai 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### COVID Hir:

- 'Mae 'COVID Hir' / 'Syndrom Ôl-COVID' neu 'COVID ôl-aciwt' yn gyflwr sy'n dod i'r amlwg, a all achosi salwch parhaus ac ystod eang o symptomau parhaol
- Nid yw'n cael ei ddeall yn dda eto, ond mae tystiolaeth gynyddol yn awgrymu ei bod yn gyffredin ac yn wanychol. Ymysg y symptomau mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â COVID Hir mae blinder cronig, anhawster anadlu, poen yn y frest, poen yn y cymalau/cyhyrau, peswch parhaus, anhawster canolbwyntio / camweithredu gwybyddol, pen tost, colli arogl/blas, ac eraill
- Mae nifer yr achosion yn anodd ei bennu gan nad yw Gwyliadwriaeth yn gyson eto ar draws Ewrop, ac mae astudiaethau ar draws gwahanol wledydd yn amrywio'n sylweddol
- Awgryma tystiolaeth fod COVID hir yn gysylltiedig ag oedran, rhyw benywaidd, nifer y symptomau yn y cyfnod aciwt, arosiadau ysbyty, rhai mathau o gyd-forbidrwydd a ffactorau risg
- Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brofion na thriniaethau penodol; mae monitro, goruchwylio ac ymchwil; a chyfranogiad cleifion yn rhan annatod o ymdrin â COVID Hir

### Teleweithio o ganlyniad i COVID-19

- Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol i gyfyngu ar COVID-19 wedi cynyddu cyffredinolrwydd 'teleweithio', gan gynnwys gweithio gartref (o bell) a gweithio hyblyg
- Mae cyffredinolrwydd teleweithio'n amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd, sectorau a galwedigaethau cyn ac ar ôl y pandemig COVID-19
  - Awgryma'r canfyddiadau fod teleweithio i'w weld yn fwy cyffredin ymhlith y rhai sydd â chymwysterau a sgiliau gwell, a chyflog uwch
- Mae manteision teleweithio yn cynnwys cynhyrchiant uwch, llai o gymudo a chostau byw a llygredd aer gostyngol
- Ymhlith anfanteision teleweithio mae diffyg adnoddau sgiliau/hyfforddi, diffyg canllawiau iechyd a diogelwch, materion diogelwch, ymyriad gwaith/cartref, unigrwydd ac arwahanrwydd
- Mae polisïau llywodraeth cenedlaethol a lleol yn allweddol wrth weithredu teleweithio'n llwyddiannus yn y tymor hir


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio’r Gorwel Rhyngwladol, 10 Mehefin 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Nifer y bobl sy’n manteisio ar y brechlyn COVID-19 ledled y byd

- Mae nifer o ffactorau yr adroddir yn gyson eu bod yn cael effaith ar fanteisio ar frechlynnau yn fyd-eang, gan gynnwys oedran, rhyw, addysg, ethnigrwydd ac incwm
  - Yn fyd-eang, mae dros 70% o bobl yn debygol o dderbyn brechlyn COVID-19, gan amrywio o 29% yn Kazakhstan i 95% yn Extremadura, Sbaen
- Yn y tymor hir, dylid ymdrin â’r ffactorau strwythurol sylfaenol sy’n creu annhegwch iechyd, ynghyd â chamau i ymdrin ag annhegwch manteisio ar y brechlyn COVID-19 er mwyn diogelu’r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas
- Mae lefelau hyder yn y brechlyn COVID-19 yn amrywio dros amser ac yn dylanwadu ar y nifer sy’n manteisio ar y brechlyn, mae hyn yn effeithio ar betruster ynghylch brechlynnau, a all fod yn broblem yn yr ymdrech fyd-eang i reoli COVID-19 ac â’r potensial i effeithio’n andwyol ar y llwyddiannau presennol os na chaiff ei reoli’n effeithiol

### Polisïau ail-agor

- Mae’r rhan fwyaf o wledydd wedi cynhyrchu cynllun fesul cam i godi mesurau rheoli ac atal haint, gyda phellter cymdeithasol a defnydd gorfodol o fasgiau wedi’u codi ddiwethaf
  - Mae’r rhan fwyaf o wledydd yn cynnwys canran y boblogaeth a frechwyd yn y gyfres o ffactorau sydd i’w hystyried cyn codi cyfyngiadau
- Mae’n rhaid gwneud penderfyniadau ar ddiddymu mesurau rheoli ac atal haint yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael ar gyfer y wlad honno ar y pryd
- Ni ddylai polisïau ail-agor gynyddu annhegwch: dylid ystyried asesiad o’r effaith wahaniaethol ar wahanol grwpiau cyn ail-agor er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho’r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 1 Gorffennaf 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith COVID-19 ar arferion addysgu ac ysgol:

- Mae cau ysgolion wedi achosi aflonyddwch i ddysgwyr ar draws y byd, gyda chyfanswm o 167 o wledydd yn cau ysgolion ledled y wlad ar anterth yr aflonyddwch i ysgolion
- Mae dadansoddi cynnar yn rhagfynegi mai plant o gefndiroedd difreintiedig sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan gau ysgolion
    - Dylai cynlluniau ystyried anghenion grwpiau sy'n agored i niwed ac anfantais bresennol er mwyn peidio ag ehangu'r bwlch cyrhaeddiad addysgol ymhellach
- Dylid lliniaru effaith COVID-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant drwy gymhwyso ymyriadau priodol sy'n cydbwyso anghenion plant am chwarae a dysgu
- Gellir defnyddio mentrau, megis negeseuon iechyd y cyhoedd cynyddol mewn ysgolion, ymgysylltiad rhieni ag addysg plant a defnydd cynyddol o dechnoleg, er mwyn gwella rhaglenni addysgol yn y dyfodol

### Effaith amgylcheddol COVID-19:

- Bu ymyriadau anfferyllol yn gysylltiedig â lefelau is o lygryddion aer a deunydd gronynnol ar draws dinasoedd ledled y byd, ond efallai na chaiff hyn ei gynnal
- Mae'r defnydd o gyfarpar amddiffynnol personol (PPE) wedi cynyddu yn ystod y pandemig, mae hyn yn creu problem amgylcheddol
- Mae angen ymchwil pellach i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy a mesurau lliniaru i leihau effaith amgylcheddol gwastraff PPE
    - Cynigiwyd dewisiadau amgen mwy llesol i'r amgylchedd yn lle defnyddio PPE gan gynnwys hylif diheintio dwylo, cadw pellter cymdeithasol a masgiau y gellir eu hailddefnyddio


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 22 Gorffennaf 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Effaith COVID-19 ar ddiogelwch cyflogaeth:

- Mae'r gweithlu wedi profi aflonyddwch digynsail oherwydd COVID-19; Yr oedd 93 y cant o weithwyr y byd o fewn gwledydd gyda rhyw fath o fesur cau gweithleoedd ar ddechrau 2021
  - Mae'r sectorau a gafodd eu bwrw galetaf yn cynnwys gweithgynhyrchu, gwasanaethau llety a bwyd, masnach cyfanwerthu a manwerthu a gweithgarwch eiddo tiriog a busnes
- Fodd bynnag, ni theimlid hyn yn gyfartal gan bob gweithiwr, mae colledion cyflogaeth ymhlith gweithwyr dros dro a rhan-amser, gan gynnwys gweithwyr asiantaeth, wedi bod yn fwy nag ymhlith cyflogeion â chontractau rheolaidd
  - Mae'r rhai mewn grwpiau agored i niwed a
- Mae cysylltiadau clir rhwng ansicrwydd cyflogaeth ac iechyd meddwl mewn sefyllfaoedd o argyfwng a cheir tystiolaeth ryngwladol gynyddol bod cyflogaeth ansicr ar ei phen ei hun wedi cael effaith ar iechyd meddwl yn ystod y pandemig COVID-19

### Cydnabyddiaeth o COVID Hir

- 'Mae 'COVID hir' (a elwir hefyd yn 'Syndrom Ôl-COVID' neu 'COVID Ôl-acíwt') yn gyflwr hirhoedlog sy'n dilyn haint SARS-Cov-2.33
- Nid yw'r cyflwr yn cael ei ddeall yn dda eto, ond mae 'COVID hir' yn achosi salwch parhaus gydag ystod eang o symptomau hirhoedlog, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, flinder, poen yn y frest, diffyg anadl ac anghofrwydd
- Nid oes un diffiniad a gydnabyddir yn swyddogol

## Cipolwg ar wlad




22/07/2021
Achosion (cronnus):
**237,276**

Marwolaethau (cronnus):
**5,598**


02/07/2021: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi bod mwy na 75% o oedolion o dan 50 oed wedi cael eu dos cyntaf o frechlyn COVID-19, gan olygu eu bod wedi cyrraedd y drydedd garreg filltir, sef y garreg filltir derfynol.

14/07/2021: Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun rheoli Coronafeirws wedi'i ddiweddaru sy'n nodi y bydd Cymru yn symud yn llawn i lefel rhybudd un o 17 Gorffennaf. Y Prif Weinidog yn cyhoeddi newidiadau i'r cyfyngiadau gan gynnwys dileu'r cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n gallu ymgynnull yn yr awyr agored.

Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 22 Awst 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Adferiad y gwasanaeth iechyd meddwl yn sgil COVID-19:

- Mae'r pandemig COVID-19 parhaus wedi cael effaith andwyol ar wasanaethau iechyd meddwl ledled y byd
- Trwy gydol y pandemig bu galw am fuddsoddi mewn iechyd meddwl ac mae rhai gwledydd wedi cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl yn echblyg yn eu cynlluniau ymadfer yn sgil COVID-19
  - Canfu arolwg byd-eang o 130 o wledydd fod gan 89% o wledydd gymorth iechyd meddwl a seicogymdeithasol fel rhan o'u cynllun ymateb COVID-19, fodd bynnag, dim ond 17% o'r gwledydd hyn sydd wedi dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi hyn
- Mae'r pandemig wedi cyflymu'r gwaith o ddatblygu ffyrdd amgen o weithio, gan gynnwys twf cymorth iechyd meddwl digidol. Bydd angen cynnal hyn, lle y bo'n briodol, er mwyn ateb y galw cynyddol, fodd bynnag, mae newid mwy sylfaenol i unioni annhegwch mewn cymdeithas yn hanfodol er mwyn ymdrin â lles meddyliol ar lefel y boblogaeth
- Mae cywain a rheoli data'n allweddol i ddeall anghenion nas diwallwyd ac sy'n dod i'r amlwg, a chynllunio gwasanaethau iechyd meddwl cynhwysfawr, ond mae hefyd yn hanfodol cael digon o staff hyfforddedig i ddiwallu'r angen hwn
- Wrth symud i'r cam ymadfer, mae adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn hanfodol, ac mae angen ymyriadau iechyd meddwl cymdeithas gyfan ac ymyriadau iechyd meddwl seiliedig ar dystiolaeth gyda chyllid cynaliadwy i gefnogi eu gweithrediad

### Effaith Covid-19 ar grwpiau agored i niwed

- Profodd llawer o grwpiau agored i niwed ganlyniadau iechyd meddwl gwaeth o ganlyniad i'r pandemig na'r boblogaeth yn gyffredinol, ac erbyn hyn mae angen cymorth iechyd meddwl arnynt i wella
  - Nodir pobl hŷn fel grŵp sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig COVID-19, a gwnaed hyn yn waeth gan allgáu digidol
- Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar nifer o grwpiau sydd â chyflyrau iechyd penodol, megis y rhai y mae eu himiwnedd wedi'i gyfaddawdu. Dylid ymdrechu i gadw grwpiau sy'n agored i niwed yn ddiogel, heb waethygu annhegwch iechyd ymhellach
- Gohiriwyd rhai rhaglenni sgrinio ac mae ôl-groniadau i weithio drwyddynt, mae angen gwaith hefyd i helpu pobl i deimlo'n ddiogel i fynychu profion diagnostig dilynol er mwyn atal niwed pellach i iechyd
- Dylid cydnabod yr effaith barhaus ac ehangach ar yr aelwyd gyfan o gael rhywun yn y tŷ sy'n agored i niwed yn glinigol a dylai cymorth gael ei gynnig i aelwydydd, er enghraifft gan addysg a gweithleoedd, fel cydnabyddiaeth o'r heriau y mae hyn yn ei greu
- Pan adroddwyd amdano, ar y cyfan roedd cleifion yn fodlon ar y newid i delefeddygaeth ar gyfer grwpiau agored i niwed, a lle bo hynny'n briodol dylid bwrw ymlaen ag ef


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 10 Medi 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Ail-agor lleoliadau addysgol

- Mae argymhellion a mesurau diogelu yn dal i fod ar waith mewn llawer o wledydd, gan ymwneud yn bennaf â hylendid dwylo ac arfer anadlol, cadw pellter corfforol, defnyddio masgiau mewn ysgolion, glanhau ac awyru amgylcheddol a pharchu gweithdrefnau er mwyn i bawb sydd â symptomau ynysu
- Mae profi yn elfen hanfodol o ail-agor, gyda chyflymder cyflwyno canlyniadau profion COVID-19 yn ffactor pwysig, mae llawer o wledydd hefyd wedi dechrau annog lleoliadau addysgol i hyrwyddo brechu ymhlith yr holl unigolion cymwys
    - Mae'r holl gyngor i fyfyrwyr trydyddol yn cynnwys Prifysgolion sy'n helpu myfyrwyr rhyngwladol i ddeall cyfyngiadau a gofynion lleol y wlad y maent yn mynd iddi er mwyn eu helpu i integreiddio'n llwyddiannus ac isafu risg

### Effaith COVID-19 ar bobl ag anableddau

- Gall pobl ag anableddau wynebu mwy o risg o ddal COVID-19 ac effeithir yn anghymesur arnynt gan yr aflonyddwch i wasanaethau hefyd: mater tegwch iechyd yw hwn
- Awgryma argymhellion rhyngwladol ymateb COVID-19 sy'n gynhwysol i bobl anabl ac yn seiliedig ar hawliau dynol
- Dylai pobl ag amrywiaeth o anableddau fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu atebion ymadfer yn sgil COVID-19 sy'n diwallu eu hanghenion amrywiol
- Dylai pob neges iechyd cyhoeddus fod yn gwbl hygyrch, a chael ei chyfleu'n rheolaidd


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Nghymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 15 Hydref 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Diweddariad brechlyn COVID-19:

- Profwyd bod y brechlynnau COVID-19 yn effeithiol o ran gostwng nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac sydd angen triniaeth gofal dwys ar gyfer COVID-19
- Ymhlith y ffactorau allweddol sy'n pennu effeithiolrwydd brechlynnau mae:
  - Amddiffyn rhag haint
  - Amddiffyniadau rhag clefydau
  - Atal rhag trosglwyddo
  - Amddiffyn rhag clefyd difrifol a marwolaeth
- Mae dwy ffurf ar y rhaglenni tystysgrif frechu/pasbortau presennol yn rhyngwladol – tystysgrifau wedi'u dylunio ar gyfer teithio rhyngwladol mwy hwylus a'r rhai a ddylunnir at ddibenion domestig i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau

### Effaith COVD-19 ar bobl o'r gymuned LHDTC+:

- Mae gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r gymuned LHDTC+ yn dal i fodoli a dywedir ei fod wedi cynyddu yn ystod y pandemig, mae'n rhaid i hyn gael ei unioni
- Mae pobl o'r gymuned LHDTC+ yn dal i brofi problemau o ran hygyrchu gofal iechyd a defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, mae'n rhaid cywiro hyn, neu bydd annhegwch ym maes iechyd yn parhau i gynyddu
- Mae materion strwythurol megis tai, tlodi a chyflogaeth yn chwarae rhan bwysig, a dylai unrhyw gynllun ymadfer amlinellu'n benodol sut y bwriedir ymdrin â'r materion strwythurol hyn


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

#### Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 25 Tachwedd 2021

## Canfyddiadau Allweddol


### Cynllunio COVID-19 ar gyfer Gaeaf 2021/22:

- Mae llawer o Ewrop yn brwydro gyda thon arall o COVID-19 ac felly mae cynlluniau gaeaf yn Ewrop yn canolbwyntio ar ailgyflwyno cyfyngiadau, gan gynnwys defnydd gorfodol o fasgiau ynghyd â chyfyngiadau ar bobl yn cymysgu (yn enwedig dan do)
- Mae gan y rhan fwyaf o wledydd gynlluniau 'cam i fyny' a 'cham-i-lawr' clir yn seiliedig ar brofiad blaenorol yn barod i'w gweithredu'n gyflym os bydd amgylchiadau'n newid. Mae'r metrigau a ddefnyddir i wneud penderfyniadau i gamu i fyny ac i lawr yn debyg ac yn fwyaf aml maent yn cynnwys pwysau ar y gwasanaethau iechyd a'r unedau gofal dwys
- O'r llenyddiaeth ryngwladol, mae'n ymddangos y ceir dau brif sbardun i wahaniaethau mewn cyfraddau haint COVID-19 a all newid (a welir o fewn gwledydd a rhwng gwledydd). Y rhain yw lefelau manteisio ar y brechlyn a'r defnydd o ymyriadau anfferyllol yn ychwanegol at frechlynnau, e.e. gweithio gartref, defnyddio masgiau etc

### Effaith Covid-19 ar bobl hŷn:

- Mae COVID-19 yn cael effaith wahaniaethol ar bobl hŷn ac mae'n ymddangos bod oedran hŷn yn ffactor risg o ran canlyniadau iechyd gwaeth, yn enwedig mynd i'r ysbyty a marwolaethau
- Adroddodd llawer o wledydd ei bod yn anodd cadw COVID-19 allan o gyfleusterau gofal hirdymor
- Ymysg y ffactorau sy'n bwysig wrth reoli COVID-19 mewn cyfleuster gofal hirdymor mae glynu'n ofalus at fesurau rheoli haint, lefelau staffio digonol, mynediad at gyfarpar amddiffynnol personol ac arweinyddiaeth dda


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 17 Rhagfyr 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith COVID-19 mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig

- Mae'r pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol o fewn a rhwng gwledydd
- Mae angen mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol mewn cymdeithas sy'n creu canlyniadau iechyd gwahaniaethol ar gyfer COVID-19 a thu hwnt
- Ymchwiliwyd i wahaniaethau yn y nifer sy'n manteisio ar frechlynnau fesul grŵp ethnig fel rhan o'r ymateb i'r pandemig ond mae mwy i'w wneud i ymdrin â'r gwahaniaethau hyn a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn
- Mae iaith fel rhwystr i gael mynediad at wasanaethau iechyd wedi'i nodi ers tro byd fel problem: mae'n rhaid i bob neges iechyd cyhoeddus fod yn hygyrch i'r boblogaeth
- Gall mynediad i wasanaethau iechyd ar-lein gynyddu anghydraddoldebau iechyd os na chaiff ei reoli'n ofalus


### Cyngor gwyddonol COVID-19 i lywodraethau

O'r arolwg a gynhaliwyd, gwelsom y canlynol:

- Ym mhob gwlad a ymatebodd, erys cyfrifoldeb dros COVID-19 yn nwylo'r llywodraeth o hyd
- Roedd pob gwlad a ymatebodd wedi sefydlu grwpiau cynghori gwyddonol i helpu llywodraethau i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth
- Amlder cyfarfodydd oedd y prif ddull o ddarparu hyblygrwydd yn y cymorth sydd ei angen gyda chyfarfodydd mwy neu lai aml gan ddibynnu ar gam y pandemig

**gwledydd a ymatebodd i'r arolwg: Gwlad Belg Burkina Faso, Canada, Yr Almaen, Israel, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, De Affrica, Sbaen*


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Nghymru

Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38


# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 27 Ionawr 2022

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith Covid-19 ar blant

- Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar blant, yn enwedig o ran lles meddyliol a datblygiad plant
- Mae effaith economaidd COVID-19 ar incwm aelwydydd wedi effeithio ar deuluoedd, ac felly ar blant. Mae byw mewn tlodi'n effeithio'n uniongyrchol ar brofiad plant o addysg, iechyd, tai, maeth ac iechydaeth
- Mae ansicrwydd bwyd i blant yn fater iechyd cyhoeddus difrifol, ac mae darparu prydau ysgol maethlon i blant sy'n agored i niwed yn fesur pwysig i fynd i'r afael â hyn
- Bu newidiadau sylweddol mewn gweithgareddau chwarae ymysg plant, gyda gweithgareddau dan do yn disodli chwarae egnïol yn yr awyr agored: mae angen ailgyflwyno cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored a'u cryfhau er mwyn cefnogi datblygiad plant a lles meddyliol. Ni ddylai'r gostyngiad mewn gweithgarwch corfforol a'r cynnydd mewn ymddygiad eisteddog ymysg plant fynd yn norm newydd, mae angen ymdrech frys a pharhaus i unioni hyn neu bydd materion iechyd difrifol yn cael eu storio i fyny ar gyfer y dyfodol
- Mae'r hyder sydd gan fenywod mewn darpariaeth eu gwasanaethau mamolaeth o fewn amgylchedd 'diogel o ran COVID' yn allweddol i hybu presenoldeb yn yr apwyntiadau pwysig hyn ac yn hanfodol i helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- Mae gwledydd fel UDA, Canada a Brasil i gyd yn brechu plant o 5 oed i fyny, ac mae ymchwil ar y gweill ar frechu COVID-19 i blant o dan 5 oed. Bydd angen i'r rhai sy'n llunio polisi ystyried y cydbwysedd eang o ran risgiau a buddion wrth ystyried brechu plant


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad 27
Adroddiad 28
Adroddiad 29
Adroddiad 30
Adroddiad 31
Adroddiad 32
Adroddiad 33
Adroddiad 34
Adroddiad 35
Adroddiad 36
Adroddiad 37
Adroddiad 38

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 10 Mawrth 2022

## Canfyddiadau Allweddol


### Tegwch o ran y brechlyn COVID-19

- Gwelwyd gwahaniaethau pendant yn y cyflenwad o frechlynnau COVID-19 rhwng gwledydd
- Mae mynediad at feddyginiaethau hanfodol, gan gynnwys brechlynnau, yn rhagofyniad ar gyfer yr hawl ddynol sylfaenol i iechyd i bawb, ac mae'n rhaid taclo hyn fel mater iechyd cyhoeddus allweddol
- Mae llawer mwy o frechlynnau'n cael eu profi a dylai'r farchnad hon barhau i ehangu, gan gynnig cyfleoedd newydd i wella tegwch brechlynnau
- Dylai strategaethau brechu COVID-19 barhau i flaenoriaethu atal clefydau difrifol
- Mae cefnogi trosglwyddo technoleg, ynghyd â hyfforddi staff a gwella mynediad at gynhwysion a chyfarpar, fel y gall gwledydd gynhyrchu eu cyflenwadau brechlyn eu hunain, i'w weld yn ateb llwyddiannus

### Marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19

- Mae monitro marwolaethau dros ben yn darparu dealltwriaeth o effaith COVID-19 yn ystod y pandemig
- Mae marwolaethau dros ben yn seiliedig ar dybiaeth o flwyddyn 'gyfartalog' o ystyried y tueddiadau mewn cyfraddau marwolaeth a newid demograffig, maent yn rhagfynegiadau, ni allwn wybod beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r pandemig wedi digwydd
- Mae'r patrymau marwolaethau gormodol yn adlewyrchu'r tonnau o'r feirws sy'n cylchredeg mewn gwahanol wledydd ar wahanol adegau
- Mae ymyriadau iechyd y cyhoedd, megis brechu, wedi cael effaith ar farwolaethau dros ben


### Cipolwg ar wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Nghymru

Achosion Covid-19



Mae'r adroddiadau Sganio'r Gorwel a Dysgu Rhyngwladol yn cael eu datblygu gan y Tîm Iechyd Rhyngwladol yng Nghanolfan Gydweithredu WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Arweinydd gweithredol a Chyfarwyddwr WHO CC: Mark A Bellis

Arweinydd iechyd rhyngwladol a Dirprwy Gyfarwyddwr WHO CC: Mariana Dyakova

Ymgynghorydd iechyd y cyhoedd: Claire Beynon

Awduron a chyfranwyr: Anna Stielke, James Allen, Abigail Instone,
Andrew Cotter-Roberts, Mischa van Eimeren, Benjamin Bainham

Dyluniwyd gan: Jenney Creative

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc

/Phwwhocc

Canolfan Gydweithredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization
Collaborating Centre on Investment
for Health and Well-being